

TREF yn taro'r cywair cywir wrth ddathlu ei rhan mewn hanes cerddorol.



Roedd y chwedegau yn fyw eto yn y Rhyl, pan gafodd y Stryd Fawr ei gweddnewid yn Beatles Street.

Roedd y digwyddiad arbennig – a drefnwyd gan Gyngor Tref y Rhyl ac yn cynnwys y band teyrnged lleol The Cavernites – yn dathlu'r achlysur pan chwaraeodd y band yng Nghymru am y tro cyntaf.

Chwaraeodd y Beatles yn Ystafell Ddawnsio Regent Dansette y Rhyl, sydd bellach yn gartref i Burton a Dorothy Perkins, ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 14, 1962, ar drothwy'r hyn a oedd i droi yn Beatlemania.

Trodd The Cavernites y cloc yn ôl i'r diwrnod hwnnw, gyda channoedd o siopwyr yn mwynhau caneuon clasurol y Beatles. Cyfrannodd tîm o gerddwyr stiltiau at yr awyrgylch, gan roddi cyfle i ymwelwyr dynnu hun-luniau.

Meddai Maer y Rhyl, y Cynghorydd Alan James: "Mae plac glas yn nodi lle perfformiodd y Beatles, ond nid yw pawb yn gwybod am y rôl y chwaraeon y Rhyl yn hanes y band. Daeth eu perfformiad ar y stryd fawr cyn i Beatlemania ddechrau, a hwn oedd ymweliad cyntaf y band â Chymru.

"Rydym yn falch o ddod ag ychydig o'r hud hwnnw y ôl efo The Cavernites – band teyrnged lleol gyda dilyniant cenedlaethol a ddaeth â chaneuon gorau'r Beatles i'r Rhyl ar gyfer ein digwyddiad."

Adeg eu perfformiad cyntaf yn y Rhyl, aelodau'r *Beatles* oedd John Lennon, Paul McCartney, George Harrison a'r drymiwr Pete Best a adawodd y band fis ar ôl eu hymddangosiad yn y Dansette.

Meddai Glenn Mitchell o'r Cavernites: "Mae gan y Rhyl hanes cyfoethog o'r Beatles gyda'r band yn aros yn y Westminster Hotel ar gyfer eu sioe gyntaf yma. Mae wastad yn braf chwarae yn ein tref gartref a dod ag ychydig o'r hanes hwn yn fyw."

Diwedd

